# Profedigaeth

Adra

Nid yw fyth yn hawdd ymdopi gyda marwolaeth aelod o'r teulu neu ffrind. Paratowyd y daflen hon i'ch helpu drwy'r broses o ddod â chontract meddiannaeth i ben (tenantiaeth) pan fydd deiliad contract (tenant) yn marw.

## Byw yn yr eiddo

Os ydych yn byw gyda deiliad y contract yn yr eiddo, efallai bod gennych hawliau olyniaeth. Cysylltwch â ni os ydych eisiau trafod ymhellach.

## Beth sy'n digwydd gyda'r rhent?

Bydd angen talu unrhyw rent neu ôl-ddyled sy'n weddill o ystâd deiliad ymadawedig y contract.

## Beth ddylwn ei wneud gyntaf?

Nid yw contract meddiannaeth yn dod i ben yn awtomatig pan fydd deiliad contract yn marw. I ddod â'r contract i ben, rhaid i gynrychiolydd personol y deiliad contract adael i'r tîm profedigaeth wybod am y farwolaeth cyn gynted â phosib.
Pan fyddwn yn ymwybodol o hyn, byddwn yn anfon y canlynol atoch:

- Ffurflen 'Rhybudd i ddod a Contract Meddiannaeth i ben' (marwolaeth deiliad contract unigol) i chi ei chwblhau.
- Amlen wedi'i rhagdalu i ddychwelyd y ffurflen.

Os y gallwch, gyrrwch gopi o'r dystysgrif marwolaeth os gwelwch yn dda (Peidiwch â phoeni os nad ydych wedi cael y dystysgrif marwolaeth, gallwch ei hanfon yn hwyrach ymlaen).

adra.co.uk | 0300 123 8084 |
@adrataicyf | ymholiadau@adra.co.uk

# Rhestr Wirio

Rydym wedi paratoi rhestr wirio fer o'r rhai o'r prif gamau sydd angen eu cymryd:

- Cadarnhau marwolaeth y deiliad contract i Adra yn ysgrifenedig. Dylai hyn gynnwys enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r deiliad contract. Dylid hefyd nodi enw, cyfeiriad a rhif cyswllt y cynrychiolydd personol, a'ch perthynas â'r deiliad contract.
- Gyrru copi o'r dystysgrif marwolaeth i Adra pan fydd ar gael.
- Cloi holl ddrysau a ffenestri'r eiddo.
- Cysylltu gyda RSPCA am fwy o wybodaeth am beth i'w wneud gydag unrhyw anifeiliaid anwes sydd wedi'u gadael yn yr eiddo.
- Rhoi'r cyflenwad dŵr yr eiddo i ffwrdd.
- Bydd angen clirio'r holl eitemau gan gynnwys eiddo personol, dodrefn, cyfarpar, ysbwriel a charpedi (gan gynnwys yr atig, yr ardd a thai allan) o'r eiddo. Efallai y bydd angen talu am y gost o dynnu unrhyw eitemau sydd wedi'u gadael yn yr eiddo o ystâd deiliad ymadawedig y contract.
- Dylid dychwelyd unrhyw gymhorthion anabledd arbenigol i'r darparwr priodol.
- Os oes llinell argyfwng yn y cartref peidiwch â thynnu hon o'r cartref.
- Dylid labelu allweddi a ffobiâu neu eu rhoi mewn amlen gyda chyfeiriad yr eiddo wedi'i nodi'n glir a'i ddychwelyd i swyddfa Adra.
- Os mai llety gwarchod oedd yr eiddo, bydd tri goriad 'suited' i'w dychwelyd.
- Ail gyfeirio post.
- Dylid cymryd darlleniadau o nwy, dŵr a thrydan a rhoi'r darlleniad terfynol i'r cyflenwyr.
- Os oes gan y deiliad contract garej Adra, rhaid terfynu'r contract yma drwy lythyr, gan gynnwys manylion y garej. Mae angen hysbysiad o wythnos.
- Os oedd y deiliad contract yn cael budd-daliadau penodol, dilynwch y linc yma i hysbysu'r partïon perthnasol Beth i'w wneud ar ôl i rywun farw: Dywedwch Wrthym Unwaith - GOV.UK

Yn y cyfamser, os ydych yn teimlo eich bod angen siarad gyda rhywun oherwydd eich bod yn cael trafferth ymdopi â'ch colled, dyma fanylion sefydliad arbenigol a all helpu:

Enw: Cruse Bereavement Support
Ffôn: 0808 808 1677
www.cruse.org.uk

Os hoffech drafod unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth yma, cysylltwch gyda ni.
bereavement@adra.co.uk